



# Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau

Canllawiau Addysgu  
Uned 5

## UNED 5

# CEFNOGI UNIGOLION SYDD MEWN PERYGL I GYFLAWNIR CANLYNIADAU MAEN NHW'N DYMUNO EU CAEL

### Cyflwyniad:

Prif nod y canllawiau unedau hyn yw cefnogi'r broses o addysgu a dysgu ac i fod yn gydymaith i'r Fanyleb. Mae pob un o'r canllawiau unedau yn cynnig esboniad manwl o bwyntiau allweddol yn y Fanyleb gyda'r nod o esbonio meysydd cymhleth o gynnwys y pwnc.

### Rhaglen Astudio:

Mae'r gweithgareddau a ddarperir yma yn awgrymiadau ar gyfer datblygu gwybodaeth dysgwyr yn unig. Mae'n rhaid i bob canolfan benderfynu a yw'r gweithgareddau yn briodol i'w dysgwyr, a chydubyddir y gall amodau lleol bennu'r dull a fabwysiedir. Er y gall rhai o'r gweithgareddau a awgrymir olygu ymgysylltu â'r sector, noder bod y mwyaf o'r gweithgareddau wedi'u cynllunio i gael eu cynnal yn yr ystafell ddosbarth. Bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth drwy'r profiad y byddant yn ei ennill wrth gyflawni pob gweithgaredd. Mae adborth ffurfiannol hanfodol i'r broses ddysgu, er mwyn sicrhau bod y dysgwr yn datblygu'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i ennill y graddau gorau posibl. Mae enghreifftiau o weithgareddau wedi'u rhoi yn y canllawiau hyn sy'n cynnig digon o gyfle i roi adborth ffurfiannol.

### Trosolwg o'r uned:

Yn yr uned hon, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r ffactorau a allai gyfrannu at roi unigolion mewn perygl o gael eu cam-drin a'u hesgeuluso, gofynion deddfwriaeth, rheoliadau a chodau ymddygiad ac ymarfer ar gyfer diogelu ac amddiffyn unigolion sydd mewn perygl yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol a dulliau o sicrhau hawliau unigolion.

Mae'r uned hon yn adeiladu ar wybodaeth a dealltwriaeth a feithriniwyd drwy uned 3.

### Asesiad:

Asesir yr uned hon drwy aseiniad a osodir sy'n cynnwys dwy dasg: cyflwyno nodiadau achos ar ffurf cyflwyniad a chyflwyno gwybodaeth i gyfrannu at gynllun gofal a chymorth personol.

Bydd yr aseiniad yn seiliedig ar ddeunydd ysgogi a gyhoeddir ar ddechrau bob blwyddyn academaidd; bydd angen i ddysgwyr gyfeirio at y deunydd ysgogi hwn wrth ymateb i'r tasgau yn yr asesiad. Bydd dysgwyr yn cael amser penodol i lunio'r dystiolaeth ar gyfer yr asesiad hwn, gan gwblhau'r gwaith dan oruchwyliaeth yn y ganolfan.

Gall canolfannau drefnu i'r asesiad gael ei gynnal unrhyw bryd unwaith y bydd cynnwys yr uned wedi'i gyflwyno.

Enghraifft o raglen astudio ar gyfer:

**Uned 5 (Cefnogi unigolion sydd mewn perygl i gyflawni'r canlyniadau maen nhw'n dymuno eu cael)**

Maes Testun	Gweithgareddau	Adnoddau	Gwaith cartref
5.1 Ffactorau sy'n cyfrannu at roi unigolion mewn perygl o gael eu cam-drin a'u hesgeuluso	<p>Cyflwyno cynnwys yr uned a dulliau asesu.</p> <p>Trafodaeth a arweinir gan diwtor ynghylch y mathau o gam-drin y gallai unigolion fod mewn perygl ohonynt:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cam-drin emosiynol/seicolegol</li> <li>• Cam-drin corfforol</li> <li>• Cam-drin ariannol</li> <li>• Cam-drin rhywiol.</li> </ul> <p>Dysgwyr i wyllo fideo 5 munud ar Winterbourne View (<a href="https://www.youtube.com/watch?v=wqYZi19jvBM">https://www.youtube.com/watch?v=wqYZi19jvBM</a>), a ddilynir gan drafodaeth a arweinir gan diwtor.</p> <p>ac ymgymryd â gweithgareddau senario Gofal Cymdeithasol Cymru:  <a href="https://gofalcymdeithasol.cymru/cms_assets/file-uploads/Senarios-Camdriniaeth-Niwed-ac-Esgeulustod-Dewisol-Gweithgaredd-11b-pecyn-Diogelu-fersiwn-3.pdf">https://gofalcymdeithasol.cymru/cms_assets/file-uploads/Senarios-Camdriniaeth-Niwed-ac-Esgeulustod-Dewisol-Gweithgaredd-11b-pecyn-Diogelu-fersiwn-3.pdf</a>.</p> <p>Dysgwyr i lunio adnodd adolygu ar y mathau o gam-drin y gallai unigolion fod mewn perygl ohonynt.</p>	<p>Gofal Cymdeithasol Cymru – Taflen Cam-drin Emosiynol/Seicolegol:  <a href="https://gofalcymdeithasol.cymru/cms_assets/file-uploads/Taflen-cam-drin-emosiynol-seicolegol-Gweithgaredd-5-pecyn-Diogelu-fersiwn-3.pdf">https://gofalcymdeithasol.cymru/cms_assets/file-uploads/Taflen-cam-drin-emosiynol-seicolegol-Gweithgaredd-5-pecyn-Diogelu-fersiwn-3.pdf</a></p> <p>Gofal Cymdeithasol Cymru – Taflen Cam-drin Corfforol:  <a href="https://gofalcymdeithasol.cymru/cms_assets/file-uploads/Taflen-cam-drin-rhywiol-Gweithgaredd-5-pecyn-Diogelu-fersiwn-3.pdf">https://gofalcymdeithasol.cymru/cms_assets/file-uploads/Taflen-cam-drin-rhywiol-Gweithgaredd-5-pecyn-Diogelu-fersiwn-3.pdf</a></p> <p>Gofal Cymdeithasol Cymru – Taflen Cam-drin Ariannol:  <a href="https://gofalcymdeithasol.cymru/cms_assets/file-uploads/Taflen-cam-drin-ariannol-Gweithgaredd-5-pecyn-Diogelu-fersiwn-3.pdf">https://gofalcymdeithasol.cymru/cms_assets/file-uploads/Taflen-cam-drin-ariannol-Gweithgaredd-5-pecyn-Diogelu-fersiwn-3.pdf</a></p> <p>Gofal Cymdeithasol Cymru – Taflen Esgeulustod:  <a href="https://gofalcymdeithasol.cymru/cms_assets/file-uploads/Taflen-esgeulustod-Gweithgaredd-5-pecyn-Diogelu-fersiwn-3.pdf">https://gofalcymdeithasol.cymru/cms_assets/file-uploads/Taflen-esgeulustod-Gweithgaredd-5-pecyn-Diogelu-fersiwn-3.pdf</a></p> <p>Gofal Cymdeithasol Cymru – Taflen Cam-drin Rhywiol:  <a href="https://gofalcymdeithasol.cymru/cms_assets/file-uploads/Taflen-cam-drin-rhywiol-Gweithgaredd-5-pecyn-Diogelu-fersiwn-3.pdf">https://gofalcymdeithasol.cymru/cms_assets/file-uploads/Taflen-cam-drin-rhywiol-Gweithgaredd-5-pecyn-Diogelu-fersiwn-3.pdf</a></p>	<p>Adnoddau ar-lein CBAC</p> <p>Dysgwyr i lunio nodiadau adolygu byr ar bedair ochr o bapur A4 ynglŷn â thestunau a drafodwyd yn ystod yr wythno.s</p>

	<p>Trafodaeth a arweinir gan diwtor yngylch ffactorau a allai gyfrannu at roi unigolion mewn perygl o gael eu cam-drin a'u hesgeuluso, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <b><i>straen gofalwyr</i></b> e.e. rhwystredigaeth, teimlo dan bwysau ac yn methu ymdopi, diffyg gofal seibiant, newid mewn sefyllfa ariannol</li> <li>• <b><i>dibyniaeth</i></b> e.e. plant, unigolion hŷn, unigolion sy'n byw ag anableddau (yn cynnwys anableddau dysgu a namau gwybyddol) yn aml yn fwy agored i niwed am eu bod yn dibynnu ar eraill neu'n dibynnu arnynt i gael gofal a chymorth</li> <li>• <b><i>anghydfod teuluol</i></b> e.e. efallai y bydd unigolion sydd wedi wynebu camdriniaeth/trais domestig yn credu bod yr ymddygiad hwn yn dderbynio</li> <li>• <b><i>ynysu</i></b> e.e. allgáu cymdeithasol, methu â manteisio ar rwydweithiau cefnogi, diffyg mynediad i wybodaeth, eiriolaeth a chefnogaeth mewn perthynas â sut y gellir eu hamddiffyn</li> <li>• <b><i>cyflyrau meddygol/seicolegol</i></b> e.e. afiechyd meddwl, lefelau isel o hunanhyder a hunan-barch, anawsterau cyfathrebu</li> <li>• <b><i>gallai ffactorau eraill gynnwys</i></b> credoau crefyddol/hil/cyfeiriadedd rhywiol/gwahaniaethau, safle yn y teulu/gwneud bwch dihangol, diffyg ymwybyddiaeth, hyfforddiant neu fonitro gweithwyr i sylwi ar neu ddelio gyda materion diogelu.</li> </ul> <p>Dysgwyr i lunio adnoddau adolygu ar gyfer y ffactorau a allai gyfrannu at roi unigolion mewn perygl o gael eu cam-drin a'u hesgeuluso, gan roi enghreifftiau.</p>	
	<p>Gofal Cymdeithasol Cymru – Taflen Oedolion sy'n Wynebu Risg:</p> <p><a href="https://gofalcymdeithasol.cymru/cms_assets/file-uploads/Taflen-oedolyn-sy-n-wynebu-risg-pecyn-Diogelu-fersiwn-3.pdf">https://gofalcymdeithasol.cymru/cms_assets/file-uploads/Taflen-oedolyn-sy-n-wynebu-risg-pecyn-Diogelu-fersiwn-3.pdf</a></p> <p>Gofal Cymdeithasol Cymru – Taflen Plant sy'n Wynebu Risg:</p> <p><a href="https://gofalcymdeithasol.cymru/cms_assets/file-uploads/Taflen-plentyn-sy-n-wynebu-risg-pecyn-Diogelu-fersiwn-3.pdf">https://gofalcymdeithasol.cymru/cms_assets/file-uploads/Taflen-plentyn-sy-n-wynebu-risg-pecyn-Diogelu-fersiwn-3.pdf</a></p>	<p>Adnoddau ar-lein CBAC</p> <p>Dysgwr i lunio nodiadau adolygu byr ar bedair ochr o bapur A4 ynglŷn â thestunau a draffodwyd yn ystod yr wythnos.</p>

Maes Testun	Gweithgareddau	Adnoddau	Gwaith cartref
5.2 Ffactorau a all effeithio ar hawl unigolion sydd mewn perygl yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol	<p><b>Siaradwr gwadd: Gweithiwr Cymdeithasol</b> yn trafod ffactorau a all effeithio ar hawliau unigolion sydd mewn perygl yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• oedran yr unigolyn a'i ddealltwriaeth o'i hawliau fel unigolyn</li> <li>• agweddau unigolion sy'n gweithio mewn lleoliadau sy'n hybu gofal person-ganolog</li> <li>• darpariaeth adnoddau, e.e. gweithwyr, clinigau, cartrefi gofal, canolfannau gofal dydd, cludiant i apwyntiadau</li> <li>• y gallu i ddeall gwybodaeth neu i wneud penderfyniad</li> <li>• y gallu i gyfathrebu</li> </ul> <p>Dysgwr i baratoi nodiadau yn barod am drafodaeth dosbarth/grŵp ar ôl ymdrin â'r holl gynnwys ar gyfer 5.2.</p>	<p>Gofal Cymdeithasol Cymru – Beth yw ystyr galluedd meddyliol: <a href="https://gofalcymdeithasol.cymru/gwella-gwasanaethau/deddf-galluedd-meddyliol-a-threfniadau-diogelu-rhag-colli-rhyddid-dols">https://gofalcymdeithasol.cymru/gwella-gwasanaethau/deddf-galluedd-meddyliol-a-threfniadau-diogelu-rhag-colli-rhyddid-dols</a></p>	<p>Dysgwr i feddwl am gwestiynau a'u hysgrifennu yn barod i'w gofyn i'r siaradwr gwadd Adnoddau ar-lein CBAC.</p> <p>Dysgwr i lunio nodiadau adolygu byr ar bedair ochr o bapur A4 ynglŷn â thestunau a drafodwyd yn ystod yr wythnos.</p>
	<p><b>Siaradwr gwadd: Gweithiwr Cymdeithasol</b> yn trafod ffactorau a all effeithio ar hawliau unigolion sydd mewn perygl yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• mewnbwn teulu a gofalwyr a'u hymwybyddiaeth o hawliau'r unigolion</li> <li>• ynysigrwydd</li> <li>• materion sy'n ymwneud â phan fydd hawliau'r unigolyn a safbwytiau'r teuluoedd/gofalwyr yn gwrthdaro</li> <li>• diffyg eiriolaeth</li> <li>• nodweddion personol unigolion sy'n cael mynediad at ofal a chymorth person-ganolog sy'n canolbwytio ar ganlyniadau</li> </ul> <p>Dysgwr i baratoi nodiadau yn barod am drafodaeth dosbarth/grŵp ar ôl ymdrin â'r holl gynnwys ar gyfer 5.2.</p>	<p>Unigrwydd ac ynysu: <a href="https://www.ageingwellinwales.com/cy/themes/loneliness-and-isolation">https://www.ageingwellinwales.com/cy/themes/loneliness-and-isolation</a></p> <p>Eiriolaeth: <a href="https://gofalcymdeithasol.cymru/hub/hub-resource-sub-categories/eiriolaeth">https://gofalcymdeithasol.cymru/hub/hub-resource-sub-categories/eiriolaeth</a></p>	<p>Dysgwr i feddwl am gwestiynau a'u hysgrifennu yn barod i'w gofyn i'r siaradwr gwadd Adnoddau ar-lein CBAC.</p> <p>Dysgwr i lunio nodiadau adolygu byr ar bedair ochr o bapur A4 ynglŷn â thestunau a drafodwyd yn ystod yr wythnos</p> <p>* Dysgwr i gofio cofnodi ymweliad y siaradwr gwadd yn y Log Ymgysylltu â'r Sector.</p>

	<p><b>Siaradwr gwadd: Swyddog Cefnogi Gofalwyr Lleol*</b> yn trafod ffactorau a all effeithio ar hawliau unigolion sydd mewn perygl yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• cydnabod bod gan ofalwyr yr hawl i gael eu cefnogi</li> <li>• gwasanaethau cefnogi i ofalwyr ifanc.</li> </ul> <p>Dysgwr i baratoi nodiadau yn barod am drafodaeth dosbarth/grŵp ar ôl ymdrin â'r holl gynnwys ar gyfer 5.2.</p> <p>* mae rhai Awdurdodau Lleol yn cyflogi swyddogion gofalwyr; mae Awdurdodau Lleol eraill yn gosod y gwasanaeth hwn ar gcontract allanol – bydd gan bob Cyngor Sir fanylion cyswllt ar gyfer cefnogaeth i ofalwyr ar eu gwefan.</p>	<p>Deddfwriaeth Gofal Cymdeithasol yng Nghymru – gweithio gyda gofalwyr (gofalwyr a'r Ddeddf):  <a href="https://gofalcymdeithasol.cymru/hub/hub-resource-sub-categories/gofalwyr-ar-ddeddf">https://gofalcymdeithasol.cymru/hub/hub-resource-sub-categories/gofalwyr-ar-ddeddf</a></p> <p>Deddfwriaeth Gofal Cymdeithasol yng Nghymru – gweithio gyda gofalwyr (gofalwyr ifanc):  <a href="https://gofalcymdeithasol.cymru/hub/hub-resource-sub-categories/gofalwyr-ifainc-ac-oedolion-ifainc-syn-gofalu">https://gofalcymdeithasol.cymru/hub/hub-resource-sub-categories/gofalwyr-ifainc-ac-oedolion-ifainc-syn-gofalu</a></p> <p>Carers UK – cefnogaeth i ofalwyr:  <a href="https://www.carersuk.org/images/Help_Advice/CU_K_Looking_After_Someone_2019-20_Wales.pdf">https://www.carersuk.org/images/Help_Advice/CU_K_Looking_After_Someone_2019-20_Wales.pdf</a></p> <p>Dewis – Mae gan ofalwyr hawliau:  <a href="https://www.dewis.cymru/carers-have-rights">https://www.dewis.cymru/carers-have-rights</a></p>	<p>Dysgwr i feddwl am gwestiynau a'u hysgrifennu yn barod i'w gofyn i'r siaradwr gwadd.</p> <p>Adnoddau ar-lein CBAC.</p> <p>Dysgwr i lunio nodiadau adolygu byr ar bedair ochr o bapur A4 ynglŷn â thestunau a drafodwyd yn ystod yr wythnos.</p> <p>* Dysgwr i gofio cofnodi ymweliad y siaradwr gwadd yn y Log Ymgysylltu â'r Sector.</p>
	<p>Trafodaethau dosbarth ynghylch ffactorau a all effeithio ar hawliau unigolion sydd mewn perygl yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol.</p>		<p>Adnoddau ar-lein CBAC.</p>

Maes Testun	Gweithgareddau	Adnoddau	Gwaith cartref
5.3 Gofynion deddfwriaeth, rheoleiddio a chodau ymddygiad/ym arfer ar gyfer diogelu ac amddiffyn unigolion sydd mewn perygl yng Nghymru a'r DU.	<p>Sesiwn a arweinir gan diwtor i drafod gofynion deddfwriaeth, rheoleiddio a chodau ymddygiad/ymarfer ar gyfer diogelu ac amddiffyn unigolion sydd mewn perygl yng Nghymru a'r DU.</p> <p>Dysgwyr i adolygu eu dealltwriaeth o sut mae'r ddeddfwriaeth ganlynol yn ceisio diogelu unigolion sydd mewn perygl:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014</li> <li>• Ddeddf Plant (2004)</li> </ul> <p>Dysgwyr i lunio posteri ar y prif bwyntiau ar gyfer pob un i'w dangos yn y dosbarth.</p>	<p>Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – trosolwg: <a href="https://gofalcymdeithasol.cymru/hyb/deddf-sswb">https://gofalcymdeithasol.cymru/hyb/deddf-sswb</a></p> <p>Ddeddf Plant 2004: <a href="https://learning.nspcc.org.uk/child-protection-system/wales/">https://learning.nspcc.org.uk/child-protection-system/wales/</a></p>	<p>Adnoddau ar-lein CBAC.</p> <p>Dysgwr i lunio nodiadau adolygu byr ar bedair ochr o bapur A4 ynglŷn â thestunau a drafodwyd yn ystod yr wythnos.</p>
	<p>Dysgwyr i ymchwilio a llunio nodiadau adolygu i'w cyflwyno i'r dosbarth ar rôl y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol, a sefydlwyd o ganlyniad i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, er mwyn gwneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• rhoi cefnogaeth a chyngor i fyrrdau diogelu gan sicrhau eu bod yn effeithiol</li> <li>• cynnig argymhellion i Lywodraeth Cymru ynghylch sut y gellid gwella trefniadau</li> <li>• adrodd ar effeithiolrwydd trefniadau i ddiogelu plant ac oedolion yng Nghymru.</li> </ul>	<p>Gofal Cymdeithasol Cymru – Taflen Diogelu: <a href="https://socialcare.wales/cms_assets/file-uploads/Further-safeguarding-resources-Safeguarding-pack-v.3.pdf">https://socialcare.wales/cms_assets/file-uploads/Further-safeguarding-resources-Safeguarding-pack-v.3.pdf</a></p>	<p>Adnoddau ar-lein CBAC.</p> <p>Dysgwr i lunio nodiadau adolygu byr ar bedair ochr o bapur A4 ynglŷn â thestunau a drafodwyd yn ystod yr wythnos.</p>
	<p><b>Siaradwr gwadd: Swyddog Diogelu'r Cyngor Sir sy'n gyfrifol am blant</b> yn trafod y Bwrdd Diogelu Plant (BDP), sef corff amlasant aethol i hybu llesiant plant a gafodd ei sefydlu dan Ran 7 y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, er mwyn gwneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• amddiffyn y plant yn ei ardal sy'n profi, neu mewn perygl o gael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu o gael eu niweidio mewn ffyrdd eraill</li> <li>• atal plant yn ei ardal rhag bod mewn perygl o gael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu o gael eu niweidio mewn ffyrdd eraill.</li> </ul>	<p>Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol Cymru: <a href="https://bwrdddiogelu.cymru/?noredirect=cy_GB">https://bwrdddiogelu.cymru/?noredirect=cy_GB</a></p> <p>Dewch o hyd i'ch bwrdd diogelu rhanbarthol: <a href="http://bwrdddiogelu.cymru/find-your-board/">http://bwrdddiogelu.cymru/find-your-board/</a></p>	<p>Dysgwr i feddwl am gwestiynau a'u hysgrifennu yn barod i'w gofyn i'r siaradwr gwadd.</p> <p>Adnoddau ar-lein CBAC.</p>

	<p>Dysgwyr i lunio adnoddau adolygu ar waith y Bwrdd Diogelu Plant (BDP) a'r gweithdrefnau i'w dilyn os bydd gweithiwr gofal yn amau bod plentyn mewn perygl.</p>		<p>Dysgwr i lunio nodiadau adolygu byr ar bedair ochr o bapur A4 ynglŷn â thestunau a drafodwyd yn ystod yr wythnos.</p> <p>*Dysgwr i gofio cofnodi ymweliad y siaradwr gwadd yn y Log Ymgysylltu â'r Sector.</p>
	<p><b>Siaradwr gwadd: Swyddog Diogelu'r Cyngor Sir sy'n gyfrifol am oedolion yn trafod y Bwrdd Diogelu Oedolion (SAB), sef partneriaeth amlasiantaethol i hybu llesiant oedolion a gafodd ei sefydlu dan Ran 7 y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, er mwyn gwneud y canlynol:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• amdiffyn oedolion yn ei ardal sydd ag anghenion gofal a chymorth (p'un a yw'r awdurdod lleol yn bodloni'r anghenion hynny ai peidio) sy'n profi neu mewn perygl o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso</li> <li>• atal oedolion sydd ag anghenion gofal a chymorth rhag bod mewn perygl o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso.</li> </ul> <p>Dysgwyr i lunio adnoddau adolygu ar waith y Bwrdd Diogelu Oedolion (SAB) a'r gweithdrefnau i'w dilyn os bydd gweithiwr gofal yn amau bod oedolyn mewn perygl.</p>	<p>Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol Cymru:  <a href="https://bwrdddiogelu.cymru/?noredirect=cy_GB">https://bwrdddiogelu.cymru/?noredirect=cy_GB</a></p> <p>Dewch o hyd i'ch bwrdd diogelu rhanbarthol:  <a href="http://bwrdddiogelu.cymru/find-your-board/">http://bwrdddiogelu.cymru/find-your-board/</a></p>	<p>Dysgwr i feddwl am gwestiynau a'u hysgrifennu yn barod i'w gofyn i'r siaradwr gwadd.</p> <p>Adnoddau ar-lein CBAC.</p> <p>Dysgwr i lunio nodiadau adolygu byr ar bedair ochr o bapur A4 ynglŷn â thestunau a drafodwyd yn ystod yr wythnos.</p>

			Dysgwr i gofio cofnodi ymweliad y siaradwr gwadd yn y Log Ymgysylltu â'r Sector.
	<p><b>Siaradwr gwadd:</b> Swyddog Lles Coleg/Ysgol yn trafod dogfennau statudol mewn perthynas â diogelu, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gweithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 1 – Cyflwyniad a Throsolwg</li> <li>• Gweithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 5 – Trin Achosion Unigol i Ddiogelu Plant sydd mewn Perygl</li> <li>• Gweithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 6 – Ymdrin ag Achosion Unigol i Amddiffyn Oedolion sy'n Wynebu Risg.</li> </ul> <p>Dysgwyr i lunio eu canllaw hawdd ei ddeall eu hunain ar y dogfennau statudol uchod mewn perthynas â diogelu.</p>	<p>Gweithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 1:  <a href="https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/gweithio-gydan-gilydd-i-ddiogelu-pobl-cyfrol-i-cyflwyniad-a-throsolwg.pdf">https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/gweithio-gydan-gilydd-i-ddiogelu-pobl-cyfrol-i-cyflwyniad-a-throsolwg.pdf</a></p> <p>Gweithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 5:  <a href="https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/gweithio-gydan-gilydd-i-ddiogelu-pobl-cyfrol-5-ymdrin-ag-achosion-unigol-i-amddiffyn-plant-syn-wynebu-risg.pdf">https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/gweithio-gydan-gilydd-i-ddiogelu-pobl-cyfrol-5-ymdrin-ag-achosion-unigol-i-amddiffyn-plant-syn-wynebu-risg.pdf</a></p> <p>Gweithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 6:  <a href="https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Strategaethau-a-pholisiau/Gwasanaethau-Cymdeithasol-a-Iechyd/Deddf-Gwasanaethau-Cymdeithasol-a-Llesiant-Cymru-2016-Adran-7-Cyfrol-6.pdf">https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Strategaethau-a-pholisiau/Gwasanaethau-Cymdeithasol-a-Iechyd/Deddf-Gwasanaethau-Cymdeithasol-a-Llesiant-Cymru-2016-Adran-7-Cyfrol-6.pdf</a></p>	<p>Dysgwr i feddwl am gwestiynau a'u hysgrifennu yn barod i'w gofyn i'r siaradwr gwadd.</p> <p>Adnoddau ar-lein CBAC.</p> <p>Dysgwr i lunio nodiadau adolygu byr ar bedair ochr o bapur A4 ynglyn â thestunau a draffodwyd yn ystod yr wythnos.</p> <p>* Dysgwr i gofio cofnodi ymweliad y siaradwr gwadd yn y Log Ymgysylltu â'r Sector.</p>

Maes Testun	Gweithgareddau	Adnoddau	Gwaith cartref
5.4 Dulliau o sicrhau hawliau unigolion sydd mewn perygl yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol.	<p>Trafodaeth a arweinir gan ddysgwyr ynghylch yr arferion y dylid eu hybu er mwyn diogelu unigolion sy'n cael mynediad at ofal, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>meithrin cydberthynas ag unigolion</li> <li>sicrhau bod pob unigolyn yn teimlo bod ganddo lais, dewis a rheolaeth</li> <li>sicrhau bod pob darn o ddeddfwriaeth a chod ymarfer yn cael ei roi ar waith a'i ddilyn a'r canlyniadau os na lwyddir i wneud hynny</li> <li>darparu amgylchedd diogel.</li> </ul> <p>Dysgwyr i lunio taflen ffeithiau sy'n addas i wirfoddolwyr newydd mewn lleoliad gofal ar yr arferion y dylid eu hybu i ddiogelu unigolion sy'n cael mynediad at ofal.</p>		<p>Adnoddau ar-lein CBAC.</p> <p>Dysgwr i lunio nodiadau adolygu byr ar bedair ochr o bapur A4 ynglŷn â thestunau a drafodwyd yn ystod yr wythnos.</p>
	<p>Trafodaeth a arweinir gan ddysgwyr ynghylch y dulliau y dylid eu hybu er mwyn diogelu unigolion sy'n cael mynediad at ofal, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>gwybodaeth, ymwybyddiaeth a hyfforddiant ar ddiogelu i weithwyr proffesiynol ac unrhyw bobl eraill a allai weld dystiolaeth neu gael datgeliadau</li> <li>cyfranogiad gweithredol</li> <li>eiriolaeth</li> <li>grymuso</li> <li>egwyddorion gofal</li> <li>deddfwriaeth</li> <li>gofal personol</li> <li>Ilywodraethu – gan gynnwys gwaith Arolygiaeth Gofal Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.</li> </ul> <p>Dysgwyr i lunio adroddiad sy'n addas i'w ddarllen gan wirfoddolwyr newydd mewn lleoliad gofal ar y dulliau gweithredu y dylid eu hybu i ddiogelu unigolion sy'n cael mynediad at ofal.</p>		<p>Adnoddau ar-lein CBAC</p> <p>Dysgwr i lunio nodiadau adolygu byr ar bedair ochr o bapur A4 ynglŷn â thestunau a drafodwyd yn ystod yr wythnos.</p>

Maes Testun	Gweithgareddau	Adnoddau	Gwaith cartref
	Dysgwyr i weithio mewn parau i drafod a chwblhau Llyfr Gwaith 1 AWIF Gofal Cymdeithasol Cymru – Egwyddorion a gwerthoedd iechyd a gofal cymdeithasol (oedolion)	Fframwaith sefydlu Cymru gyfan ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol Llyfr gwaith un – Egwyddorion a gwerthoedd iechyd a gofal cymdeithasol (oedolion): <a href="https://gofalcymdeithasol.cymru/cms_assets/file-uploads/AWIFHSC-Section-1-workbook-P-and-V-adults-Cymraeg-Sept-2019.pdf">https://gofalcymdeithasol.cymru/cms_assets/file-uploads/AWIFHSC-Section-1-workbook-P-and-V-adults-Cymraeg-Sept-2019.pdf</a>  Cyflwyniad i Lyfr Gwaith 1 (fideo): <a href="https://www.youtube.com/channel/UCmTDZ3M2NONS_KLq_D0Wj_A/search?query=principles+of+care">https://www.youtube.com/channel/UCmTDZ3M2NONS_KLq_D0Wj_A/search?query=principles+of+care</a>	Adnoddau ar-lein CBAC.  Dysgwr i lunio nodiadau adolygu byr ar bedair ochr o bapur A4 ynglŷn â thestunau a drafodwyd yn ystod yr wythnos.
5.5 Sut y gall gweithwyr unigol a'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt hybu cynhwysiant	<b>Siaradwr gwadd:</b> Rheolwr Gwasanaeth Gofal (Canolfan ddydd i Oedolion ag Anableddau Dysgu, Cartref Gofal Preswyl ac ati) yn trafod ffyrdd y gall gweithwyr unigol a'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt hyrwyddo cynhwysiant, gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"><li>• adeiladu ar unrhyw ymarfer da presennol</li><li>• sicrhau bod dulliau cyfathrebu bob amser yn glir ac yn yr iaith a'r fformat o ddewis</li><li>• sicrhau nad oes:<ul style="list-style-type: none"><li>• gwahaniaethu drwy gysylltiad</li><li>• gwahaniaethu drwy ganfyddiad</li><li>• aflonyddwch</li></ul></li><li>• herio unrhyw ymarfer gwahaniaethol a hybu ymarfer cynhwysol</li><li>• mynediad teg drwy sicrhau cyfleoedd cyfartal a phriodol i bawb/heb fabwysiadu un dull i bawb/gwneud addasiadau rhesymol fel y bo'n briodol</li><li>• mabwysiadu agwedd a dull da mewn perthynas â chefnogi unigolion i sicrhau nad ydyn nhw'n cael eu hallgáu neu eu hynysu</li><li>• gwybod pryd mae'n briodol i 'chwythu'r chwiban'</li><li>• gwrando ar unigolion er mwyn sicrhau eu bod bob amser yn cael llais</li></ul>	Iechyd y GIG yng Nghymru – Polisi Chwythu'r Chwiban: <a href="http://www.wales.nhs.uk/document/240483/info/">http://www.wales.nhs.uk/document/240483/info/</a>  Iechyd Cyhoeddus Cymru – Polisi ar gyfer codi pryderon: <a href="https://phw.nhs.wales/about-us/policies-and-procedures/policies-and-procedures-documents/human-resources-policies/procedure-for-nhs-staff-to-raise-concerns/">https://phw.nhs.wales/about-us/policies-and-procedures/policies-and-procedures-documents/human-resources-policies/procedure-for-nhs-staff-to-raise-concerns/</a>	Dysgwr i feddwl am gwestiynau a'u hysgrifennu yn barod i'w gofyn i'r siaradwr gwadd.  Adnoddau ar-lein CBAC.  Dysgwr i lunio nodiadau adolygu byr ar bedair ochr o bapur A4 ynglŷn â thestunau a drafodwyd yn ystod yr wythnos.

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• cefnogi amrywiaeth drwy dderbyn a chroesawu yr hyn sy'n gwneud unigolyn yn wahanol drwy weithio mewn ffurdd nad ydynt yn barnu</li> <li>• trin pob unigolyn mewn ffordd unigryw, gydag urddas a pharch.</li> </ul> <p>Dysgwyr i lunio adnodd sy'n addas i wirfoddolwyr newydd mewn lleoliad gofal ei ddarllen, ar y ffurdd y gall gweithwyr gofal a'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt hybu cynhwysiant, gan gynnwys egwyddorion a gwerthoedd.</p>		* Dysgwr i gofio cofnodi ymweliad y siaradwr gwadd yn y Log Ymgysylltu â'r Sector.
	Dysgwyr i ddefnyddio <b>Deunydd ysgogi'r Asesiad Di-arholiad ar gyfer Uned 5</b> i lunio nodiadau achos ar ffurf cyflwyniad a chyflwyno gwybodaeth i gyfrannu at gynllun gofal a chymorth personol. Deunyddiau Asesu Enghreifftiol ar gyfer Uned 5 ar wefan <a href="http://dysguiechydagofal.cymru">dysguiechydagofal.cymru</a>		
	<b>Asesiad: Deunydd ysgogi'r Asesiad Di-arholiad</b> – Tasg 1 tua 10 awr o gyfanswm yr amser a neilltuir ar gyfer yr Asesiad Di-arholiad Tasd 2 tua 5 awr o gyfanswm yr amser a neilltuir ar yr Asesiad Di-arholiad		